VOICE of ONLINE YOUTH

# Ein Maniffesto ar gyfer Newid






# Cynnwys

**Ein Maniffesto ar gyfer Newid** 3

**Ein 5 blaenoriaeth** 4

**Ein barn ar y blaenoriaethau hyn yn fanwl** 7

1. Gwell addysg i bawb 8
2. Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial 10
3. Lleihau effaith niweidiol hysbysebion ar-lein 12
4. Gwella'r adnoddau riportio 14
5. Gwella preifatrwydd a chynnal diogelwch 15

**Beth mae pobl ifanc eraill yn ei ddweud?** 16

# Ein Maniffesto ar gyfer Newid

Ni yw Llais Ieuenctid Ar-lein yr NSPCC, sef grŵp o 14 o bobl ifanc 14-17 oed o bob cwr o'r DU. Rydyn ni yma i greu dyfodol lle mae profiad pob plentyn ar-lein yn un cadarnhaol.

**Rhaid i leisiau ein cenhedlaeth gael gwrandawiad.**




**Er mis Ebrill 2024, rydym wedi bod yn datblygu ein maniffesto arloesol ar gyfer newid, sy'n datgan ein 5 blaenoriaeth.**

**Bydd y rhain:**

- Yn golygu y gallwn bwyso am weithredu mewn meysydd fel diogelwch, preifatrwydd ac addysg.
- Yn sicrhau bod gan bobl ifanc gynrychiolaeth.
- Yn rhoi inni ran amlwg mewn gwneud penderfyniadau, codi ymwybyddiaeth, a rheoleiddio'r byd ar-lein.
- Yn sicrhau bod y rhyngrwyd yn parhau i fod yn lle cadarnhaol a chalonogol i bobl ifanc.

Fe wnaethom ddewis y 5 blaenoriaeth yma oherwydd ein bod ni'n credu mai nhw yw'r pryderon mwyaf perthnasol i'n cenhedlaeth ni. Rydym hefyd yn credu mai dyma'r meysydd lle mae gwir angen i bethau newid.

Byddwn yn gweithio drwy gwrdd â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, gyda chefnogaeth yr NSPCC a'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw. Fe wnânt ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, gan greu'r newidiadau y mae angen i ni eu gweld.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i **nspcc.org.uk/VoiceOfOnlineYouth**

# Ein 5 blaenoriaeth


## 1. Gwell addysg i bawb

**Y problemau a welwn:**

Mae addysg diogelwch ar-lein yn aml yn hen ffasiwn ac yn amherthnasol, ac yn methu â rhoi sylw i'r heriau go iawn y mae plant yn eu hwynebu. Ac mae'r adnoddau ar gyfer rhieni wedi'u seilio ar yr hyn y mae rhieni'n ei feddwl ydy'r problemau, nid y problemau go iawn y mae plant yn eu hwynebu.

**Yr atebion rydym am eu cael:**

Rydyn ni eisiau i bob oedolyn gael ei addysgu'n well i helpu pobl ifanc gyda'r materion maen nhw'n gorfod delio â nhw ar-lein. Mae angen i'r gefnogaeth hon gael ei siapio gan blant a'u profiadau. Mae angen iddi fod yn berthnasol ac yn briodol i oedran, gan dynnu sylw at gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae angen i bobl ifanc allu chwarae rhan bwysig yn y gwaith o'i siapio.





## 2. Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial

**Y problemau a welwn:**

Nid yw offer deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoleiddio eto, ac mae hynny'n arwain at ddatblygiadau nad oes neb yn cadw golwg arnynt ac nad oes neb yn atebol amdanynt. Gall botiau sgwrsio deallusrwydd artiffisial fod yn annibynadwy ac mae ganddynt y potensial i ledaenu camwybodaeth sy'n gallu arwain at niwed difrifol. Hefyd, gall unrhyw un ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar gyfer llais, delweddau a fideos i greu beth bynnag maen nhw eisiau heb ganlyniadau.

**Yr atebion rydym am eu cael:**

Cyflwyno rheoliadau caeth ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddatblygu'n gyfrifol, gan sefydlu atebolrwydd i grewyr a safonau moesegol clir. Gweithredu prosesau profi trylwyr ar gyfer systemau deallusrwydd artiffisial i atal camwybodaeth a chyfyngu ar yr hyn y bydd deallusrwydd artiffisial yn rhoi cyngor arno. Dylid bod cyfyngiadau ar y math o gynnwys y gall offer deallusrwydd artiffisial ei greu, yn enwedig o ran cynnwys rhywiol.



# Ein 5 blaenoriaeth




## 3. Lleihau effaith niweidiol hysbysebion ar-lein

**Y problemau a welwn:**

Mae hysbysebion ar-lein bellach yn rhan arferol o'r cynnwys y mae pobl ifanc yn ei weld ar-lein, ac mae hynny'n peryglu cael effaith negyddol ar eu hunan-barch a'u hymddygiad. Pan fydd dylanwadwyr yn hysbysebu i bobl ifanc, efallai na fyddan nhw bob amser yn dweud y gwir am yr hyn maen nhw'n ei werthu. Yn y pendraw mae cwmnïau technoleg yn rhoi blaenoriaeth i hysbysebion ar draul diogelwch a lles pobl ifanc.

**Yr atebion rydym am eu cael:**

Rheoliadau mwy caeth ar hysbysebion ar-lein y gallai pobl ifanc eu gweld, a'i gwneud yn haws adnabod y bobl hynny sy'n cael eu talu i gymeradwyo cynhyrchion. Dylai deallusrwydd artiffisial gael ei reoleiddio mewn hysbysebion a chynnwys sy'n cymeradwyo cynhyrchion. A dylai adnoddau addysgol edrych ar effaith hysbysebion ar-lein ar bobl ifanc, a'u helpu i gael mwy o reolaeth dros yr hyn maen nhw'n ei weld yn eu ffrwd.

# Ein 5 blaenoriaeth

## 4. Gwella'r adnoddau riportio

**Y problemau a welwn:**

Nid yw'r adnoddau sydd ar gael i riportio ymddygiad niweidiol ar gyfryngau cymdeithasol yn amddiffyn plant a phobl ifanc. Maen nhw'n aml yn gymhleth ac yn aneglur, sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn llai tebygol o riportio problemau. Nid yw'r adnoddau riportio ar blatfformau blaenllaw yn effeithiol, ac mae pobl ifanc yn aml yn teimlo nad oes dim yn digwydd pan maen nhw yn riportio. Maen nhw hefyd yn teimlo nad oes cefnogaeth effeithiol i'w chael.

**Yr atebion rydym am eu cael:**

Dylid creu offer riportio haws a chanllawiau clir i ddefnyddwyr iau. Pan fydd pobl ifanc yn riportio cynnwys, dylai ymateb clir a chyflym roi gwybod i bobl ifanc bod y mater yn cael sylw, a dweud wrthynt ble i fynd i gael cymorth ychwanegol. Dylid bod pobl go iawn yn cymedroli'r ymateb a'r gefnogaeth hon, a dylent gyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau a sefydlwyd yn benodol ar gyfer pobl ifanc fel Childline.

## 5. Gwella preifatrwydd a chynnal diogelwch

**Y problemau a welwn:**

Mae preifatrwydd a rhannu data yn aml yn golygu optio i mewn yn ddiofyn ac mae pobl ifanc yn ansicr pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu amdanynt a pham, gan eu gwneud yn agored i risgiau preifatrwydd a bod eu data'n cael ei ddefnyddio heb iddynt fod yn llwyr ymwybodol o hynny. Yn ogystal, mae modelau deallusrwydd artiffisial yn cael eu hyfforddi gan ddefnyddio data heb ganiatâd, ac mae hynny'n gwneud pobl ifanc yn fwy ofnus ynglŷn â chamwybodaeth deallusrwydd artiffisial.




**Yr atebion rydym am eu cael:**

I roi sylw i beryglon preifatrwydd i bobl ifanc, dylai platfformau symud at optio allan o rannu data yn ddiofyn, defnyddio fframweithiau cydsyniad ar sail oedran, a bod yn gliriach ynghylch sut mae data'n cael ei ddefnyddio. Dylai diweddariadau diogelwch neu fanylion preifatrwydd a gyflwynir fod yn addas i bobl ifanc, fel eu bod yn hawdd eu darllen a'u deall.

# Ein barn ar y blaenoriaethau hyn yn fanwl...

# 1. Gwell addysg i bawb

## EIN MEDDYLIAU

### Pa mor berthnasol ydy'r adnoddau addysgol:

"Mae addysg yn gyffredinol yn canolbwyntio ar fod ar-lein, mae'n cael ei addysgu ar-lein, mae gwaith cartref yn cael ei anfon ar-lein, mae negeseuon at rieni ar-lein. Ond nid yw'r elfen ddiogelwch i gyd-fynd â hyn yn cael ei dysgu'n effeithiol i bobl ifanc."

"Ychydig iawn sy'n digwydd mewn ysgolion i orfodi rheolau diogelwch ar-lein."

"Mae llawer o'r adnoddau wedi dyddio."

"Mae pob ysgol yn siarad am seiberfwlio ac enw da ar-lein. Mae yna fwy i fywyd ar-lein i ni."

"Nid yw'n symud yn ddigon cyflym i addasu gyda thechnolegau modern."

"Rydyn ni wedi anghofio llawer ohono erbyn yr amser pan mae'n dod yn berthnasol."

"Mae angen addysgu rhai pynciau o'r dechrau, pethau fel 'peidiwch â choelio popeth a welwch ar-lein bob tro' oherwydd fe all fod yn anodd torri arferion, felly mae angen i ni roi'r wybodaeth gywir cyn i'r arferion hyn gael eu ffurfio. Gyda phynciau mwy aeddfed, mae angen i bobl ifanc wybod amdanynt pan maent yn ifanc ond mae angen iddynt gael eu haddysgu mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran ac sy'n addas i blant a rhaid delio â hyn yn fwy sensitif."

"Yr unig beth a gawn ni ydy'r un hen gynnwys wedi'i ailgylchu."







### Pa mor hawdd ydy cael gafael ar adnoddau addysgol:

"Mae'n gallu bod yn heriol i fyfyrwyr niwrowahanol neu fyfyrwyr sydd â heriau iechyd meddwl oherwydd efallai nad yw ysgolion yn darparu ar eu cyfer nac wedi'u paratoi i ddelio â hyn."

"Dydy pynciau diogelwch ar-lein ddim wedi'u teilwra i oedran."

"Mae'r system ddysgu yn sefydlog ac nid oes modd ei haddasu ar gyfer gwahanol fathau o bobl."

### Adnoddau addysgol i oedolion:

"Mae'n creu anghydbwysedd grym rhwng myfyrwyr ac athrawon, sy'n golygu nad yw myfyrwyr bob amser yn cael gwrandawiad nac yn cael eu parchu."

"Mae'n canolbwyntio ar y problemau y mae oedolion yn meddwl amdanynt, nid ar beth yw'r problemau go iawn."

"Dydy o ddim yn targedu rhieni."

"Dydy oedolion ddim yn cael yr addysg ar faterion cyfredol."

# 1. Gwell addysg i bawb

## EIN GALWADAU I WEITHREDU

### Pa mor berthnasol ydy'r adnoddau addysgol:

1. Dylai'r addysg am ddiogelwch ar-lein ddechrau'n gynnar yn yr ysgol gynradd a bod yn fesuradwy fel y gallwn weld y cyrhaeddiad a'r effaith.
2. Mae angen i addysg plant ganolbwyntio ar y technolegau y maent yn eu defnyddio
3. Dylid bod modd addasu addysg diogelwch ar-lein ar gyfer anghenion pob plentyn (h.y. oedran, ADY).

### Pa mor hawdd ydy cael gafael ar adnoddau addysgol:

4. Gellid cyflwyno addysg drwy blatfformau digidol gan fynd i'r afael â'r heriau a wynebir yn y byd go iawn sy'n cyd-fynd â phrofiadau plant.
5. Dylai addysg ac adnoddau gysylltu'n well â gwasanaethau cymorth i bobl ifanc fel Childline, fel bod plant yn deall pa gymorth sydd ar gael os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

### Adnoddau addysgol i rieni a gofalwyr:

6. Dylai addysg i rieni gael ei llywio gan leisiau a phrofiadau pobl ifanc er mwyn iddynt allu deall beth mae eu plentyn yn ei brofi ar-lein.
7. Dylid addysgu rhieni am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio er mwyn cyrraedd mwy o rieni a hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc.






# 2. Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial

## EIN MEDDYLIAU


### Diffyg ymddiriedaeth ac eglurder:

"Mae llawer o bobl yn meddwl y gallan nhw adnabod cynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial... rydych chi jest eisiau chwilio am y bysedd... dydy pethau ddim mor syml â hynny bellach."

"Mae fideos wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial wedi datblygu i fod yn fwy realistig ac yn anoddach eu hadnabod."

"Bydd [Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol] yn dweud celwydd llwyr wrthych chi os nad yw'n gwybod yr ateb i rywbeth yn hytrach na chyfaddef nad yw'n gwybod."

"Rydych chi eisiau bod yn gallu ymddiried [mewn deallusrwydd artiffisial] pan fyddwch yn gofyn cwestiynau. Fel beth yw ei ffynonellau."




### Diffyg diogelwch drwy ddyluniad:

"[Nid yw deallusrwydd artiffisial] yn cael ei gyfyngu na'i fonitro."

"Mae hunan-reoli ar gyfer cwmnïau deallusrwydd artiffisial, heb os, yn amhosibl oherwydd eu nod fydd mwy o refeniw."

"[Dylai deallusrwydd artiffisial] wastad gyfeirio at ffynonellau, gan ddweud o ble mae pob darn yn dod a rhoi dolen at y wybodaeth ichi."

"Dylid cael mwy o reolaethau i rieni, fel gallu monitro faint mae eu plentyn yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fel Chat GPT."

"Dylid cael dyfrnodau deallusrwydd artiffisial... [dylai'r rhain] lynu wrth safonau'r diwydiant."

"Ni ddylid caniatáu i unrhyw beth gael ei hunan-reoli. Dydyn ni ddim yn ymddiried mewn pobl i yrru'n ddiogel, rydyn ni'n gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd gyda phrofion gyrru a rheolau."

### Defnyddio delweddau a llais i greu ffugiadau dwfn:

"Mae angen rheoleiddio a siarad am gynhyrchu llais drwy ddeallusrwydd artiffisial. ... Ni chafodd hyn ei godi fel mater diogelwch eto ond mae'n bosibl gwneud i bobl, fel enwogion, ddweud pethau nad ydyn wedi'u dweud."

"[Does dim] cyfyngiadau ar greu delweddau."

"Mae modd ei gamddefnyddio i greu delweddau o bobl yn gwneud rhywbeth nad ydyn nhw erioed wedi'i wneud."

"Mae'n eithaf syml, pe na allai [deallusrwydd artiffisial] wneud pethau drwg yna ni allai pethau drwg ddod ohono... Dwi wedi clywed am bobl y mae deallusrwydd artiffisial wedi troi delweddau ohonynt yn ddelweddau anweddus. Ni ddylai deallusrwydd artiffisial gael gwneud hynny."

# 2. Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial

## EIN MEDDYLIAU

### Iechyd a lles:

"Mae hidlyddion deallusrwydd artiffisial yn creu safonau harddwch afrealistig."

"Mae rhai deallusrwydd artiffisial yn siarad â chi fel pe baen nhw'n ffrind neu'n therapydd i chi; mae hynny'n gwneud drwg oherwydd ei fod yn golygu nad yw pobl yn siarad â ffrindiau/therapyddion go iawn."

"Mae pobl yn ei ddefnyddio i gael cyngor bywyd neu gyngor meddygol."

"Fe all greu ymdeimlad ffug o gyfeillgarwch a dibyniaeth ar y deallusrwydd artiffisial"

"Ni ddylai dealltwriaeth artiffisial fel Chat GPT gael ateb cwestiynau am bethau fel iechyd. Pe byddech chi'n gofyn cwestiwn iechyd iddo byddai'n dweud rhywbeth fel 'sori, ond allaf fi ddim ateb y cwestiwn yna ichi, byddai angen i chi ofyn i feddyg neu'r GIG."



led by us

### Camddefnyddio ehangach:

"Mae myfyrwyr yn ei ddefnyddio i dwyllo gyda'u gwaith cartref."

"Mae'n cael ei wthio ym mhob man erbyn hyn oherwydd bod cwmnïau'n teimlo ei fod yn boblogaidd ac nid yw mewn gwirionedd yn ddefnyddiol lawer o'r amser."

"Mae dealltwriaeth artiffisial yn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i atebion ond nid yw'n gwneud iddyn nhw feddwl."

"Yn dibynnu gormod arno."



## EIN GALWADAU I WEITHREDU

1. Mae arnom angen deddfwriaeth glir i reoleiddio deallusrwydd artiffisial gyda chod ymddygiad deallusrwydd artiffisial effeithiol wedi'i greu gyda phlant a phobl ifanc mewn golwg.

2. Dylai apiau ddangos yn glir pan ddefnyddir deallusrwydd artiffisial.

3. Rhaid adolygu'r broses o gynhyrchu llais a fideo drwy ddeallusrwydd artiffisial ar frys i sicrhau bod diogelwch drwy ddyluniad yn cael ei roi ar waith.

4. Dylid atal sgwrsfot deallusrwydd artiffisial rhag cynnig cyngor iechyd a lles, yn hytrach dylent fod yn cyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol y gellir ymddiried ynddynt.

5. Dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y rhai sy'n dylunio deallusrwydd artiffisial, fel eu bod yn cyfyngu ar yr offer hyn rhag cael eu defnyddio i niweidio a cham-drin plant a phobl ifanc.

# 3. Lleihau effaith niweidiol hysbysebion ar-lein

## EIN MEDDYLIAU

### Cyfryngau cymdeithasol:

"Nid cwmni hysbysebu iawn sy'n gwneud hysbysiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol - cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr ydyw yn dechnegol, felly mae'n cael ei reoleiddio i raddau llai."

"Weithiau mae pobl yn gwneud fideos i hyrwyddo cynnyrch penodol, ond dydyn nhw ddim yn gorfod datgelu eu bod yn cael eu talu i'w hyrwyddo. Mae hyn yn digwydd ar TikTok."

"Dydy e ddim yn deg bod apiau yn chwarae ar bobl i dalu i roi hwb pan mai'r apiau sy'n rheoli pwy sy'n gweld beth prun bynnag."

"Mae TikTok yn eich annog i droi cynnwys yn hysbyseb i ennyn diddordeb mwy o bobl, hyd yn oed os nad ydych yn hysbysebu unrhyw beth."

"Mae'n rhy hawdd creu hysbysebion mewn apiau fel TikTok."

"Dylai fod yn hawdd diffodd hysbysebion personol heb wneud yr ap yn anoddach ei ddefnyddio. Fe wnes i geisio diffodd hysbysebion ar YouTube ond wedyn doeddwn i'n methu gweld fideos byr YouTube. Mae hyn yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i'w troi ymlaen."




### Lles:

"Mae hysbysebion yn manteisio ar ansicrwydd pobl."

"Mae hysbysebion nid yn unig yn cael effaith negyddol drwy ddangos stereoteipiau a chynnyrch niweidiol, ond mae hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd."

"Mae'n gallu swyno rhywun i ddechrau arferion afiach fel yfed neu ysmygu."

"Weithiau mae'n gallu bod yn niweidiol i iechyd meddwl gan eu bod nhw'n gwerthu cynhyrchion sy'n manteisio ar eich ansicrwydd drwy honni mai dyma yw'r ateb, mae hysbysebion gofal croen weithiau'n gwneud hyn, "flynyddoedd yn iau mewn 2 wythnos!"

"Mae'n gallu creu FOMO [Ofn Colli Allan] diangen."

"Sicrhau nad yw hysbysebion yn hyrwyddo pynciau peryglus."

"Gellir eu defnyddio i hybu ideolegau neu gynnwys niweidiol ar blatfformau."

"Dydy ddim yn glir beth sy'n farn a beth sy'n hysbyseb."

"Mae hysbysebion mor wych am eich perswadio fel eu bod yn gallu darbwyllo pobl i wneud pethau negyddol/ prynu cynhyrchion negyddol."



# 3. Lleihau effaith niweidiol hysbysebion ar-lein

## EIN MEDDYLIAU

**Deallusrwydd Artiffisial:**

"Defnyddio deallusrwydd artiffisial a delweddau/cynnwys rhywiol/awgrymiadol, mewn hysbysebion gemau yn enwedig, nad yw'n cael ei reoleiddio."

"Mae defnyddio cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn fater mawr. Gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fe allwch greu llawer iawn o gynnwys yn gyflym iawn ac fe all hwnnw orlifo a boddi ffrwd cyfryngau cymdeithasol."



"Mae deallusrwydd artiffisial yn rhad, felly mae modd hysbysebu cynhyrchion o ansawdd gwael yn gyflym."

**Rheoleiddio:**




"Ychydig o reoleiddio a geir ar gamwybodaeth a chelwyddau am gynhyrchion."

"Rheoleiddio beth mae plant a phobl ifanc yn gallu ei weld ar-lein. Mae plant yn gweld pethau a fwriedir ar gyfer oedolion."

"Angen rheoleiddio'r ystadegau a ddefnyddir gyda hysbysebion."

## EIN GALWADAU I WEITHREDU

1. Mae angen i hysbysebion a hyrwyddiadau ar-lein y mae pobl ifanc a phlant yn eu gweld gael eu rheoleiddio'n well.
2. Dylai hysbysebion gael eu fetio gan gorff annibynnol cyn mynd yn fyw.
3. Dylai pobl ifanc a phlant gael yr opsiwn o ddiffodd hysbysebion / cynnwys hyrwyddo sy'n derbyn tâl pan maent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, heb i'r ap fod yn anoddach ei ddefnyddio.
4. Dylid monitro rôl deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn agos a dylid ei amlygu'n glir ar draws hysbysebion a hyrwyddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.



# 4. Gwella'r adnoddau riportio

## EIN MEDDYLIAU

**Gorgymhleth a dim ymateb i'w gael:**

"Dydy hi ddim bob amser yn hawdd iawn gwybod sut i riportio."

"Gall gymryd llawer o amser ac ymdrech i riportio pethau. Dylai fod yn hawdd riportio, neu fydd neb yn trafferthu."

"Os yw'n rhy anodd, bydd pobl yn llai tebygol o riportio."

"Does dim byd yn digwydd i ddelio efo pethau."

"Nid yw [riportio] yn ddigon cyson ar blatfformau."

"Ymateb prin neu ddim o gwbl a dim rheswm pam maent yn gwrthod cydnabod bod rhywbeth yn gamdriniaeth."

"Dim adborth na pha gamau sydd wedi cael eu cymryd ar ôl ichi riportio."

"[Dydy e] ddim yn teimlo bod [riportio] yn cael ei gymryd o ddifrif."

**Ddim yn addas i bobl ifanc:**

"Gall plant deimlo'n ofnus yn herio rhywun hŷn na nhw oherwydd eu bod wedi'u cyflyru i ufuddhau i bobl hŷn."

"Fel arfer, erbyn i rywbeth gael ei riportio neu ei ddileu, mae'r drwg wedi'i wneud."

"Mae hawliau ac anghenion plant yn wahanol iawn i oedolion o ran blynyddoedd ac ymatebion derbyniol, ac nid yw'r rhan fwyaf o blatfformau'n addas ar gyfer hyn."

"Dydy'r adnoddau ar blatfformau cymdeithasol mawr fel Meta ac X ddim yn effeithiol, maent yn aml yn gogwyddo o blaid y crewyr, ac ychydig a wnânt i atal camwybodaeth a diogelu defnyddwyr iau."




## EIN GALWADAU I WEITHREDU

1. Dylai pobl ifanc gael gwell cefnogaeth pan fyddant yn cael profiadau niweidiol ar-lein, dylid sicrhau bod unigolyn bob amser yn rhan o'r broses riportio er mwyn gallu adolygu'r hyn maent yn ei riportio a gweithredu'n briodol ar hynny.

2. Ymgorffori gwasanaethau cefnogaeth annibynnol ar gyfer pobl ifanc yn y platfformau a'r gemau mae pobl ifanc yn eu defnyddio fel eu bod yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth pan maent yn riportio profiadau niweidiol.

3. Ei gwneud yn haws cael gafael ar adnoddau riportio ar draws gwefannau cyfryngau cymdeithasol gan wneud yn siŵr bod y rhain yn addas i blant.

4. Dylai darparwyr technoleg barhau i roi adborth ar ôl gweithredu ar bethau sy'n cael eu riportio a dylent ymateb yn gyflymach iddynt.

# 5. Gwella preifatrwydd a chynnal diogelwch

## EIN MEDDYLIAU

**Diffyg eglurder:**

"Aneglur ynghylch pa ddata sy'n cael ei gasglu."

"Dydw i erioed yn fy mywyd wedi darllen cymaint â hynny o dudalennau'r polisïau preifatrwydd a dydw i erioed wedi cwrdd â neb sydd wedi gwneud hynny."

"Deallusrwydd artiffisial yn defnyddio [eich data] heb i bobl wybod."

"Dylid bod cydsyniad ar sail gwybodaeth, dylai platfformau ei gwneud yn glir beth sy'n digwydd."

"Does dim byd byth yn cael ei ddileu ar-lein. Nid yw eich testun a'ch lluniau Snapchat 24 awr yn cael eu dileu."

"O ran rhannu data, optio i mewn yn ddiofyn a gynigir y rhan fwyaf o'r amser."

"Does dim llawer o ymwybyddiaeth o beryglon yr hyn sy'n gallu mynd o'i le."

**Rôl cwmnïau technoleg:**

"Mae platfformau yn eu hanfod yn blaenoriaethu refeniw dros ddiogelwch a lles ac nid oes llawer i'w gael mewn deddfwriaeth i amddiffyn pobl ifanc."

"Hyd yn oed os yw cwmnïau'n gwneud y gosodiadau fel nad yw data pobl ifanc yn cael ei rannu, mae llawer o bobl ifanc yn gwneud cyfrifon dros 18 oed beth bynnag."

"Nid yw dibynnu ar gwmnïau technoleg mawr i wneud newidiadau neu i sicrhau gwell goruchwyliaeth yn ddelfrydol, oherwydd fe allai eu buddiannau gwneud elw wrthdaro â blaenoriaethu preifatrwydd defnyddwyr."

"Fe all mesurau diogelwch fel tynnu sylw at ymddygiad niweidiol gael ei orfodi a'i gyflwyno heb gyfyngu ar breifatrwydd."

## EIN GALWADAU I WEITHREDU

**1.** Dylai dadleuon sy'n cael eu harwain gan oedolion ar 'breifatrwydd yn erbyn diogelwch' ystyried sut gall y ddau beth gydfodoli, gan wrando ar leisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc.

**2.** Rheoleiddio sut mae modelau deallusrwydd artiffisial yn cael eu hyfforddi, gan eu hatal rhag defnyddio data pobl ifanc yn rhydd heb gydsyniad gwybodus a goruchwyliaeth briodol.

**3.** Dylai platfformau helpu pobl ifanc i ddeall pa ddata sy'n cael ei gasglu gyda chrynodebau hawdd eu darllen.

**4.** Dylai platfformau gefnogi pobl ifanc yn barhaus i ddewis y gosodiadau preifatrwydd iawn, nid dim ond pan fyddant yn ymuno â'r platfform am y tro cyntaf.




online generation

# Beth mae pobl ifanc eraill yn ei ddweud?

Mae Llais Ieuenctid Ar-lein yma i gynrychioli lleisiau ein cenhedlaeth ni – y genhedlaeth gyntaf i dyfu'n gyfan gwbl ar-lein. Ac er na allwn siarad ar ran pob plentyn, gwyddom fod ein blaenoriaethau yn bwysig i blant a phobl ifanc ledled y DU.

**Dyma beth mae plant a phobl ifanc eraill wedi bod yn ei ddweud. Mae hyn yn cynnwys ymchwil diweddar a chipluniau gan gysylltiadau Childline.**

## Gwell addysg i bawb

- Dim ond tri o bob deg plentyn 8-17 oed sy'n cofio cael gwersi rheolaidd ar ddiogelwch ar-lein yn yr ysgol. Mae plant yn fwy tebygol o weld y gwersi hyn yn ddefnyddiol pan fyddant wedi cael mwy ohonynt.

  Ofcom (2024) Children and parents: media use and attitudes report 2024. [Llundain]: Ofcom.

- Mae pobl ifanc yn cydnabod bod angen dysgu am ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg yn ddiogel. Mae 65% o bobl ifanc sydd wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eisiau dysgu am sut i'w ddefnyddio'n ddiogel a beth i'w wneud os oes ganddynt broblem.

  UK Safer Internet Centre (2024) Inspiring change? making a difference, managing influence, and navigating change online. [Caergrawnt]: UK Safer Internet Centre.

- Mae merched yn benodol yn dweud eu bod yn dymuno cael eu haddysgu'n well am gysylltu â phobl eraill ar-lein ac am sut i ymateb i geisiadau am ddelweddau. Gallai hyn olygu siarad â nhw am gamau ymarferol y gallant eu cymryd (e.e., blocio), sicrhau eu bod yn gwybod pa bethau y dylent ddweud wrth rywun amdanynt ac wrth bwy y gallant ddweud am hyn a bod yn benodol am beryglon ac ymatebion ar gyfer pob math o wefannau/platfformau.

  Prifysgol Anglia Ruskin (2024) Talk trust empower: a report by Policing Institute for the Eastern Region. [Caergrawnt]: Sefydliad Plismona Rhanbarth Dwyrain Lloegr. Prifysgol Anglia Ruskin.

## Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial

- Mae 59% o ferched a menywod ifanc rhwng 11 a 21 oed yn poeni y gallai deallusrwydd artiffisial gael ei ddefnyddio i greu delweddau ffug ohonynt neu eu dynwared ar-lein.

Mudiad y Geidiaid ([2024]) Girls' attitudes survey 2024: girls face a crisis of confidence in an unequal world. [Llundain]: Mudiad y Geidiaid.

- Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn tynnu sylw at ddiogelwch fel un o'r pryderon ac maen nhw, mewn gwirionedd, yr un mor debygol â'u rhieni a'u gofalwyr o gredu bod deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn peri risgiau diogelwch ar-lein, (60% a 61% yn y drefn honno).

UK Safer Internet Centre (2024) Inspiring change? making a difference, managing influence, and navigating change online. [Cambridge]: UK Safer Internet Centre.

- Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn teimlo bod delweddau ffugiad dwfn yn broblem enfawr, gyda 55% o bobl ifanc yn credu y byddai'n waeth i ffugiad dwfn ohonynt yn noeth gael ei greu a'i rannu na delwedd noeth arferol.

Internet Matters (2024) Experiences of nude deepfakes research | Internet Matters. [Llundain]: Internet Matters




**Mae plant yn cysylltu â Childline* gydag amrywiaeth o bryderon am ddeallusrwydd artiffisial, gan gynnwys pryderon am ffugiadau dwfn cam-drin plant yn rhywiol wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial, camddiagnosis o gyflyrau iechyd gan ddefnyddio sgwrsfot deallusrwydd artiffisial, a defnyddio ffugiadau dwfn mewn bwlio:**

"Allaf i ofyn cwestiynau am ChatGPT? Pa mor gywir ydy e? Roeddwn i'n cael sgwrs ag ef ac yn gofyn cwestiynau, ac fe ddywedodd wrtha i y gallwn fod yn dioddef â gorbryder neu iselder. Mae wedi gwneud i mi ddechrau meddwl bod hynny'n wir?"

**(Merch, 12 oed)**

"Fe wnaeth grŵp o fechgyn yn yr ysgol ddefnyddio ffugiad dwfn i wneud fideo ohonof yn dweud fy mod yn hoyw. Maen nhw wedi gwneud sgrinluniau ffug ohonof yn dweud fy mod i eisiau gwneud pethau rhywiol iddyn nhw hefyd. Rwyf wedi cwestiynu fy rhywioldeb ond nid wyf wedi dod allan i neb, ond dydy hynny ddim yn stopio'r bwlis. Rydw i eisiau dweud wrth athro/athrawes ond fy ngair i ydy hyn yn erbyn y bechgyn eraill i gyd."

**(Bachgen, 14)**

"Mae dieithryn ar-lein wedi gwneud lluniau noeth ffug ohonof. Maen nhw'n edrych mor real, gyda fy wyneb i a'm ystafell i yn y cefndir. Mae'n rhaid eu bod wedi cymryd y lluniau oddi ar fy Instagram a'u golygu nhw. Mae gen i gymaint o ofn iddyn nhw'n eu hanfon at fy rhieni, mae'r lluniau'n edrych mor wir, a dydw i ddim yn meddwl y bydden nhw'n fy nghredu mai rhai ffug ydyn nhw"


**(Merch, 15)**

*Mae'r cipluniau yn seiliedig ar blant/pobl ifanc go iawn sydd wedi defnyddio gwasanaeth Childline, ond nid ydynt, o anghenraid, yn ddyfyniadau uniongyrchol. Mae pob enw a manylion a allai ddatgelu pwy yw rhywun wedi cael eu newid er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r unigolyn dan sylw.

## Lleihau effaith niweidiol hysbysebion ar-lein

- Dywedodd ychydig dros hanner (54%) y plant 8-17 oed a oedd yn defnyddio peiriannau chwilio yn gywir, fod y tri chanlyniad uchaf yn y rhestr yn ganlyniadau y telir amdanynt. Fodd bynnag, roedd bron i bedwar o bob deg (37%) yn credu'n anghywir bod y canlyniadau hyn yn ymddangos gyntaf oherwydd mai nhw oedd y canlyniadau mwyaf poblogaidd, ac roedd tua chwarter (27%) yn credu mai dyma oedd y canlyniadau gorau.

  Ofcom (2024) Children and parents: media use and attitudes report 2024. [Llundain]: Ofcom.




## Gwella'r adnoddau riportio

- Mae 48% o ferched a menywod ifanc 11-20 oed eisiau i blatfformau ar-lein gymryd eu pryderon a'r pethau maent yn eu riportio yn fwy o ddifrif.

  Mudiad y Geidiaid ([2024]) Girls' attitudes survey 2024: girls face a crisis of confidence in an unequal world. [Llundain]: Mudiad y Geidiaid.

- Mae 28% o ferched a menywod ifanc 11-20 oed eisiau rhagor o arweiniad ar sut mae riportio cynnwys ar-lein.

  Mudiad y Geidiaid ([2024]) Girls' attitudes survey 2024: girls face a crisis of confidence in an unequal world. [Llundain]: Mudiad y Geidiaid.

- Dim ond hanner y plant a oedd wedi gweld cynnwys niweidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Mai 2023 – Mai 2024) a riportiodd hynny wrth y platfform. Mae merched a phlant hŷn yn llai tebygol o riportio cynnwys niweidiol. Roedd 46% o blant 12-17 oed wedi riportio cynnwys niweidiol, o'i gymharu â 57% o blant 8-11 oed; roedd 44% o ferched wedi riportio cynnwys niweidiol, o'i gymharu â 55% o fechgyn.

  Comisiynydd Plant (2022) Digital childhoods: a survey of children and parents. [Llundain]: Comisiynydd Plant.

- Dywedodd 40% o blant nad oeddent wedi riportio cynnwys niweidiol nad oeddent wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd diben gwneud. Dywedodd bron i draean (30%) nad oeddent yn gwybod sut i riportio a dywedodd 25% nad oeddent yn gwybod y gellid riportio cynnwys. Dim ond 15% oedd yn teimlo nad oedd angen riportio'r cynnwys.

  Comisiynydd Plant (2022) Digital childhoods: a survey of children and parents. [Llundain]: Comisiynydd Plant.

**Mae plant yn dweud wrth Childline* eu bod yn cael ymatebion araf, neu ddim ymateb o gwbl hyd yn oed, o riportio cynnwys niweidiol i blatfformau:**

"Rydw i'n ypset oherwydd mae yna gyfrif TikTok sy'n defnyddio fy wyneb i heb fy nghaniatâd. Dwi angen help i'w dynnu lawr. Dwi wedi cysylltu â TikTok ond dydw i heb gael ymateb."

**(Dim manylion rhywedd nac oedran)**

"Mae gen i ofn a dwi'n poeni. Fe wnes i anfon llun o'm mhreifats at ferch yn ddiweddar oherwydd ei bod wedi gofyn imi wneud. Mi wnaeth hi anfon llun ohoni hi ataf fi hefyd, ond mi wnes i e ddileu o. Mi wnes i gael gwybod ei bod hi wedi rhannu fy lluniau â phobl eraill – ac maen nhw'n bygwth mynd at yr heddlu gyda fy lluniau! Dwi'n poeni fy mod i'n mynd i gael record droseddol ac y bydd hyn yn effeithio ar fy nyfodol, fel gyda swyddi a phethau. Mi wnes i gysylltu â Snapchat i dynnu'r ddelwedd i lawr, ond dydw i ddim wedi clywed dim ganddyn nhw."

**(Bachgen, 15)**

*Mae'r cipluniau yn seiliedig ar blant/pobl ifanc go iawn sydd wedi defnyddio gwasanaeth Childline, ond nid ydynt, o anghenraid, yn ddyfyniadau uniongyrchol. Mae pob enw a manylion a allai ddatgelu pwy yw rhywun wedi cael eu newid er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r unigolyn dan sylw.

## Gwella preifatrwydd a chynnal diogelwch

- Mae 12% o bobl ifanc 12-17 oed yn dweud eu bod bob amser yn rhannu eu gwybodaeth bersonol i gael mynediad i wefannau neu apiau newydd, er eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hynny. Mae hyn yn awgrymu bod angen gweithredu i helpu ysgogi plant i wneud penderfyniadau y maent yn gyfforddus â nhw.

  Ofcom (2024) Children and parents: media use and attitudes report 2024. [Llundain]: Ofcom.

- Mae bron i hanner (48%) y bobl ifanc yn meddwl bod technoleg newidiol yn ei gwneud yn anoddach iddyn nhw reoli pwy sy'n gallu cael gafael ar wybodaeth amdanyn nhw ar-lein ac mae 60% o bobl ifanc sydd wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn credu bod hynny'n peryglu eu diogelwch.


  UK Safer Internet Centre (2024) Inspiring change? making a difference, managing influence, and navigating change online. [Caergrawnt]: UK Safer Internet Centre.

- Mae un o bob deg yn ei chael yn anodd addasu eu gosodiadau preifatrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol (11%), ac mae cyfran debyg yn ei chael yn anodd gwybod a yw gwefan yn ddiogel (10%).

  NOMINET (2022) Digital Youth Index 2022. [Rhydychen]: NOMINET.

- Wrth gynnal grwpiau ffocws cyfranogaeth gyda phlant awtistig, canfu'r Cyngor Plant Anabl, ar ran yr NSPCC, fod llawer o bobl ifanc awtistig hefyd yn poeni am ddiogelwch eu data, ac fe wnaethant sôn droeon am y perygl o ddata'n cael ei ddatgelu.

  Cyngor dros Blant Anabl (2024, heb ei gyhoeddi)




**Mae rhai plant wedi cysylltu â Childline* gyda phryderon am eu data personol yn cael ei ddatgelu neu ei gamddefnyddio ar-lein:**

"Mi wnes i wneud ffrindiau ar-lein ac mi wnaeth ddatgelu gwybodaeth bersonol amdanaf i ar-lein. Pethau fel fy nghyfeiriad a fy rhif ffôn. Fe wnaethon nhw fy mlocio ar ôl imi ddweud wrthyn nhw fy mod i'n flin am y peth. Rwy'n teimlo'n flin ac yn ypset am ymddiried ynddyn nhw. Rydw i'n teimlo fy mod mewn perygl."
**(Dim manylion oedran na rhywedd)**

"Rwy'n pryderu am wylio pethau ar-lein na ddylwn i fod yn eu gwylio. Mae gen i gywilydd. Rwy'n poeni fy mod yn gadael ôl troed digidol a fydd yn effeithio ar fy nyfodol, fel fy ngyrfa."
**(Bachgen, 13)**

"Cefais i fy docsio ar-lein. Cefais fy ychwanegu gan gyfrif ffug, a sylweddolais fod fy lluniau a fy manylion personol ar eu cyfrif. Dydw i ddim yn gwybod pwy ydy hwn na sut digwyddodd hyn gan fod fy nghyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn breifat. Dwi'n mynd i siarad â fy rhieni am y peth."
**(Dim manylion rhywedd, 13)**

*Mae'r cipluniau yn seiliedig ar blant/pobl ifanc go iawn sydd wedi defnyddio gwasanaeth Childline, ond nid ydynt, o anghenraid, yn ddyfyniadau uniongyrchol. Mae pob enw a manylion a allai ddatgelu pwy yw rhywun wedi cael eu newid er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r unigolyn dan sylw.

Am fwy o wybodaeth i gael cymorth ychwanegol, mae Childline yr NSPCC (**childline.org.uk** or **0800 1111**) ar gael i blant allu siarad â chwnselydd os maent yn teimlo'n anniogel ar-lein. Mae Childline yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth sgwrsio ar-lein, gan ddarparu lle diogel i blant chwilio am help a chyngor.

Gall rhieni/oedolion estyn allan i Linell Gymorth yr NSPCC (**0808 800 5000** or **help@NSPCC.org.uk** neu gael mynediad drwy chwilio am 'Llinell Gymorth yr NSPCC' ar-lein) am gyngor os oes ganddynt bryder.